**Cofnodion Bwrdd Rheilffyrdd TrC Cyf.**

**6 Ionawr 2023**

09:00 – 1400

Lleoliad: Llys Cadwyn, Pontypridd, ac ar-lein

---

**Yn bresennol**

James Price (Cadeirydd); Peter Strachan, Heather Clash, Jan Chaudhry, Alexia Course a Marie Daly.

Hefyd yn bresennol: Alun Bowen a Jeremy Morgan.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a dymunodd flwyddyn newydd dda i bawb.

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Dim

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**

Gan fod cworwm yn bresennol, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datganodd bod y cyfarfod yn agored.

**1c. Datganiadau Diddordeb**

Dim wedi'i ddatgan.

**1d. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Rhagfyr 2022 fel cofnod gwir a chywir. Nodwyd y Log Camau Gweithredu diweddaraf.

**2. Sylw i ddiogelwch a chwsmeriaid**

Adolygodd y Bwrdd y defnydd o gamerâu corff.

**3. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithrediadau**

Mae gwaith trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd, yn ogystal â delio â materion sy'n ymwneud â hyfforddi criwiau trenau, gweithredu'r system reoli, effeithiau tymhorol a streiciau, yn parhau i herio gwasanaethau bob dydd. Cytunodd y Bwrdd fod angen dysgu gwersi o'r tarfu a achoswyd gan y gwaith trawsnewid.

Cafwyd un achos o basio signal yn beryglus (SPAD) o ganlyniad i broblem dechnegol yn ystod y cyfnod. Mae'r gyrrwr wedi ymgymryd â sesiynau briffio a hyfforddiant. Gwelwyd cynnydd bach yn y Mynegai Marwolaethau wedi'i Bwysoli.

Trafododd y Bwrdd faterion yn ymwneud â dibynadwyedd, yn enwedig gyda threnau Mark IV a Class 769.

[redacted]

**4a. Adroddiad Sicrhau Diogelwch**
Cyfeiriwyd yn yr adroddiad at ddigwyddiad y mae Grŵp TrC, yn hytrach na Rheilffyrdd TrC Cyf, yn gyfrifol amdano. Mae angen adrodd yn ôl ar hyn i awduron yr adroddiad **[Jeremy Morgan i weithredu]**.

Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

**4b. Adroddiad risg rheilffyrdd**
Trafododd y Bwrdd y risg o ffactorau allanol yn effeithio ar refeniw teithwyr a chytunodd y dylid gostwng y sgôr ar ôl lliniaru **[Alexia Course i weithredu]**.

Cytunwyd hefyd i adolygu'r risg o ran effaith costau byw uwch ac effaith wael y gaeaf ar gwsmeriaid a chymunedau **[Leyton Powell i weithredu]**.

Nodwyd yr adroddiad risg.

**5. Y diweddaraf am y Cynllun Rheoli Argyfyngau**
Ymunodd Leyton Powell â'r cyfarfod. Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am adolygiad o'r Cynllun Rheoli Argyfwng a chawsant wybod bod ymarferion yn cael eu cynnal a bod y gwersi a ddysgwyd wedi cael eu cofnodi, gan gynnwys ymarferion aml-asiantaeth. Mae adolygiad llawn yn cael ei gynnal gyda'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn sgil adolygiad Arena Manceinion.

[redacted]

**6. Diweddariad masnachol**
Ymunodd Stephanie Raymond â'r cyfarfod.

Trafodwyd sganio tocynnau gan y Bwrdd, yn ogystal â'r gwelliannau sydd eu hangen i gynyddu cyfraddau ac i ddeall y rheswm sylfaenol dros ddiffyg cydymffurfio. [redacted]

Nododd y Bwrdd yr adroddiad.

**7. Adolygiad cyllid**

[redacted]

[redacted]

Gadawodd Stephanie Raymond y cyfarfod.

**8. Cynnig costau gwerthu**

[redacted]

**9. Cynnig contract Rheoli Cyfleusterau**

Derbyniodd y Bwrdd argymhelliad i benodi VINCI Facilities Management Ltd fel y partner cyflenwi nesaf ar gyfer Rheoli Cyfleusterau, yn amodol ar drafodaethau contract terfynol a chytundebau cyfreithiol a fydd yn cael eu cwblhau ym mis Ionawr a mis Chwefror 2023 cyn dyddiad dechrau'r contract, sef 1 Ebrill 2023.

**10. Strategaeth cyflwyno Llinellau Craidd y Cymoedd yn raddol**

Ymunodd Steve Whitley â'r cyfarfod.

[redacted]

Gadawodd Steve Whitley y cyfarfod.

**11. Diweddariad ar y trenau 230**

[redacted]

**13. Craven Arms**

Ymunodd Paul Peters â'r cyfarfod.

[redacted]

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu cyfraniadau.